Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bancyfelin
# Neuadd Bancyfelin
# Bancyfelin
# Caerfyrddin
# SA33 5NB

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bancyfelin yn cyfarfod yn Neuadd y Pentref, Bancyfelin ger Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. Mae'r lleoliad ar agor am un bore a thri phrynhawn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 16 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr, gyda naw ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Mae nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf. Daw mwyafrif y plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Nid oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod o staff. Maent yn brofiadol iawn ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2000.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2013 a chan Estyn ym Mai 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn
- Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod briodol o fedrau llythrennedd a rhifedd
- Mae gan bron pob plentyn agweddau da at ddysgu
- Mae'r addysgu da yn sicrhau ymrwymiad gweithredol a mwynhad y rhan fwyaf o blant yn eu dysgu
- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol
- Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol iawn i'r plant
- Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant
- Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus a gofalgar i'r holl blant

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn darparu ymdeimlad clir o bwrpas i waith y lleoliad
- Mae gwaith tîm effeithiol yn creu amgylchedd dysgu trefnus a phwrpasol i'r plant
- Mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles y plant
- Mae dealltwriaeth sicr gan yr ymarferwyr o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd y maent am eu datblygu
- Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys meysydd priodol ar gyfer gwelliant
- Mae swyddogion newydd y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol
- Mae partneriaethau effeithiol yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad

## Argymhellion

A1. Cryfhau'r cynllunio i ymestyn medrau'r plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu

A2. Sicrhau bod gweithgareddau ffocws yn ymateb anghenion plant o bob gallu yn gyson

A3. Ymsefydlu gweithdrefnau hunanarfarnu ymhellach

A4. Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu o'u man cychwyn. Mae eu medrau gwrando yn datblygu'n dda a dangosant ddiddordeb a brwdfrydedd wrth wrando ar storïau a chyflwyniadau. Mae gan ychydig o blant ddealltwriaeth gadarn o ymadroddion a geirfa Gymraeg ac maent yn hyderus i gynnal sgwrs. Mae gallu'r dysgwyr ifanc i ddeall a defnyddio'r iaith Gymraeg yn datblygu'n briodol. Maent yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau a chyfarchion ac yn ymdrechu'n dda i ateb cwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn medru dwyn i gof hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd ac yn eu hailadrodd yn gywir.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn deall fod lluniau a phrint yn cyfleu ystyr. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau mewn print yn ogystal ag enwau llawer o'r plant eraill. Maent yn medru enwi llythyren gyntaf eu henw ac yn dangos cynnydd da wrth ddysgu llythrennau cyfarwydd. Mae llawer o blant yn medru cynnig enwau gwrthrychau a lluniau sy'n dechrau gyda llythyren yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, megis wrth gofnodi eu henwau ar barseli i'w postio yn y swyddfa bost. Mae ychydig o blant yn gwneud cynnydd da wrth geisio ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd cywir o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Maent yn adrodd rhifau i ddeg yn hyderus ac mae ychydig yn medru cyfri tu hwnt i hynny. Mae'r mwyafrif yn adnabod gwerth rhifau hyd at bump o leiaf. Maent yn didoli gwrthrychau yn ôl siâp, maint neu liw yn gywir. Maent yn datblygu dealltwriaeth sicr o iaith fathemategol sylfaenol gan ddefnyddio termau fel bach, mawr, hir a byr, llawn a gwag yn gywir yn eu chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn adnabod siapiau dau ddimensiwn gydag ychydig ohonynt yn adnabod rhai siapiau tri dimensiwn cyfarwydd. Mae ychydig o blant ym medru egluro'n dda bod mwy o siapiau triongl na sgwâr ar y bwrdd drwy ddefnyddio dulliau gwahanol megis cyfri a didoli. Mae'r mwyafrif yn dechrau adnabod pwrpas arian, er enghraifft yn ystod eu gweithgareddau chwarae rôl yn swyddfa bost y lleoliad.

Mae llawer o blant yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol, megis symud gwrthrychau ar y sgrin a bwydo cyfarwyddiadau i'r tegan rhaglenadwy, yn briodol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau llawdriniol da wrth ddefnyddio offer ysgrifennu, torri allan, peintio a gludo. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd priodol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau megis coginio, adeiladu gyda blociau, plannu bylbiau a chreu tai i gyfleu stori'r Tri Mochyn Bach.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob un o’r plant agweddau da tuag at ddysgu. Maent yn hapus i wneud dewisiadau ac yn datblygu’n ddysgwyr hyderus. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau’r ystod o weithgareddau sydd ar gael. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o’r plant yn dda. Maent yn barod i rannu a chymryd eu tro.

Mae pob un o’r plant yn ymgartrefu’n dda yn y lleoliad ac yn ffurfio perthynas dda gyda phlant eraill. Maent yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni’r ymarferwyr ac yn barod i ofyn am gymorth. Mae lefelau presenoldeb yn dda.

Mae gan y mwyafrif o’r plant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta’n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd ac yn arbennig cyn bwyta byr brydau.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu’n dda. Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau, megis tacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus. Mae eu medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol yn datblygu ymhellach trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau, megis cyngherddau, chwaraeon a gwasanaethau, a drefnwyd mewn cydweithrediad â'r ysgol a'r gymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy’n llwyddo’n gyson i ennyn diddordeb y plant. Mae’r gweithgareddau wedi’u seilio ar gyfres o themâu sy’n addas i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Maent yn cynnwys topigau megis Pobl a’u Gwaith, Golau a Thywyllwch, a thestunau tymhorol. Mae ychydig o gyfleoedd i’r plant gynnig eu syniadau ar gyfer gweithgareddau.

Mae defnydd priodol o fframwaith gynllunio i adnabod medrau a nodi’r gweithgareddau sy’n sail i’r sesiynau sy’n cael eu harwain gan yr ymarferwyr a’r sesiynau chwarae rhydd. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw’r cynllunio yn cynnwys digon o fanylder ynglŷn ag ymestyn medrau’r plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae’r cyfleoedd rheolaidd i’r plant wrando ar storïau, siarad am eu profiadau, edrych ar lyfrau a defnyddio eu medrau marcio yn cael effaith gadarnhaol are eu cynnydd. Mae amser stori a sesiynau canu yn achlysuron difyr sy’n ennyn ymateb parod y plant. Mae cyfleoedd cynhyrchiol i’r plant gyfrif a thrafod rhifau, ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o elfennau mathemategol, megis siâp ac arian.

Mae cyfleoedd addas i’r plant ymarfer eu medrau TGCh sylfaenol yn eu chwarae. Mae profiadau perthnasol i’r plant ddefnyddio eu medrau ymchwiliol yn briodol i arbrofi â siapiau tri-dimensiwn a darganfod rhifau yn y badell ddŵr.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad sy'n hybu hyfedredd dwyieithog cynnar y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith raenus a chywir yn gyson. Mae'r plant yn dysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru trwy weithgareddau pwrpasol megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd priodol o rai ymweliadau, megis â swyddfa bost y pentref, ac o gyfraniad pobl fel y gweinidog, postman a dynion tân i ymestyn profiadau dysgu'r plant.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o ystod o ddulliau addysgu. Yn ystod sesiynau amser cylch a gweithgareddau rhydd, er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sgwrsio'n gyson gyda'r plant gan fanteisio ar bob cyfle i feithrin a datblygu eu medrau cyfathrebu. Mae defnydd effeithiol o ddulliau holi i annog y plant i fyfyrio ar eu dysgu ac i gymhwyso eu medrau'n annibynnol mewn ystod o weithgareddau.

Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis eu hunain. Caiff y gweithgareddau eu paratoi yn fanwl gyda sylw da i sicrhau adnoddau pwrpasol i gefnogi'r dysgu. Mae pwyslais clir ar hybu medrau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae defnydd effeithiol o'r swyddfa bost yn y lleoliad i'r plant ddefnyddio eu medrau llafar i ofyn am nwyddau, i drafod pris stampiau gwahanol ac i gyflwyno arian i dalu. Weithiau, fodd bynnag, nid yw gweithgareddau ffocws yn ymateb yn llawn i anghenion dysgu plant o ystod oed a gallu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn asesu a chofnodi eu cynnydd yn effeithiol. Caiff plant eu hasesu gan ddefnyddio proffil asesu datblygiad sy'n rhoi mewnwelediad defnyddiol i'r ymarferwyr o'r hyn y mae'r plant yn gallu'i wneud. Mae defnydd cynhyrchiol o'r wybodaeth hon i osod targedau grŵp a thargedau unigol i blant. Caiff cynnydd y plant tuag at gyflawni'r targedau ei fonitro'n briodol gan yr ymarferwyr. Ar adegau, mae defnydd addas o'r wybodaeth ar gyfer cynllunio gweithgareddau grŵp ond nid yw hon yn elfen gyson hyd yn hyn.

Mae rhieni'n cael gwybodaeth reolaidd am gyflawniadau, lles a datblygiad plant trwy drafodaethau anffurfiol a sesiynau adborth unigol. Maent yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig llawn gwybodaeth a samplau o waith eu plant. Mae trefniadau addas i drosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol gynradd leol a chaiff hyn ei gryfhau gyda'r cyfleoedd i'r plant i ymweld â'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Caiff plant eu hannog yn briodol i fwyta'n iach ac i ofalu am eu hylendid personol. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da yn llwyddiannus.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau ac asiantaethau arbenigol megis therapyddion lleferydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n briodol.

Mae profiadau dysgu perthnasol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Caiff gwerthoedd megis gofal a pharch, a phwysigrwydd helpu eraill eu hybu'n gryf drwy holl waith y lleoliad. Mae profiadau, megis sesiynau amser cylch, dathliadau diolchgarwch a'r Nadolig, ac adrodd gweddïau yn cyfrannu'n adeiladol at ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant. Mae dathlu gwyliau a dathliadau diwylliannau eraill, megis gŵyl Divali, yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach yn briodol.

Trwy dyfu llysiau, plannu bylbiau, dysgu am anifeiliaid a gweithgareddau ailgylchu, mae'r ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a phopeth byw mewn modd ystyrlon.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i blant i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried a gwerthfawrogi cefndiroedd gwahanol y plant a datblygant ddealltwriaeth dda o anghenion pob plentyn.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Yn gyffredinol, mae'r adeilad a'r cyfleusterau o ansawdd da. Trefnir ardaloedd gweithgareddau pwrpasol o amgylch y neuadd a chaiff enghreifftiau o waith y plant eu harddangos yn briodol.

Ar y cyfan, mae digon o adnoddau sylfaenol i gefnogi'r dysgu yn y dosbarth ac yn yr ardal ddysgu allanol. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sydd yn hyrwyddo dysgu annibynnol. Er hyn, mae'r ystod o adnoddau, megis adnoddau mathemateg a rhif a gemau bwrdd, yn fwy cyfyng. Mae'r ardal allanol yn darparu lle priodol i'r plant ddatblygu eu medrau megis eu medrau corfforol a chreadigol. Mae'r adeilad yn lan a diogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn effeithiol gan arweinydd profiadol. Mae'n gosod disgwyliadau uchel sydd wedi eu seilio ar ddatblygiad a lles plant. Mae trefniadaeth a chyfarwyddiadau clir yn sicrhau rhediad llyfn i'r sesiynau. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cytûn gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl. Maent yn

gweithio'n agos fel tîm ac yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu pwrpasol i'r plant. Caiff polisïau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o'r lleoliad. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'r trafodaethau sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae'r swyddogion, sydd yn gymharol newydd i'w swyddi, yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Er enghraifft, mae'r ysgrifenyddes yn paratoi cylchlythyron rheolaidd i'r rhieni sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am weithgareddau'r lleoliad. Er hyn, mae rôl strategol y pwyllgor, yn cynnwys prosesau blaengynllunio, yn parhau i ddatblygu. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hyrwyddo medrau llythrennedd y plant a datblygu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd leol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr am gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd y maent am eu datblygu. Mae'r arweinydd yn arfarnu'r ddarpariaeth yn briodol drwy arsylwi, dadansoddi cofnodion datblygiad plant a chyd-drafod yn rheolaidd gyda'r dirprwy arweinydd. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd cynhyrchiol o'r wybodaeth a gesglir i addasu elfennau o'r ddarpariaeth yn ôl yr angen. Er hyn, nid yw'r defnydd o weithdrefnau arfarnu mwy strwythuredig wedi'i ymsefydlu'n llawn.

Mae'r ymarferwyr wedi cwblhau adroddiad hunanarfarnu cytbwys yn seiliedig ar adolygiad manwl o'r ddarpariaeth. Mae ystod o dystiolaeth addas i gefnogi'r casgliadau. O ganlyniad, mae'r cynllun datblygu newydd yn nodi meysydd priodol ar gyfer gwelliant, ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol er mwyn cyflawni'r targedau a osodir. Mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith yn briodol gyda chymorth athrawes gyswllt yr awdurdod lleol.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n effeithiol gan yr athrawes gyswllt. Mae meysydd i'w datblygu yn cael eu cytuno a gweithredir strategaethau adeiladol sydd yn gwella'r ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn agored i ffyrdd newydd o weithio. Mae'r ymagwedd hon wedi sicrhau gwelliannau mewn meysydd megis trefniadaeth gweithgareddau.

Mae'r arweinydd yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni trwy drafod a thrwy holiaduron. Caiff gweithrediad polisïau a chanllawiau newydd eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Mae'r lleoliad yn darparu gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd, llyfrynnau a chylchlythyron. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r berthynas waith agos gyda'r pwyllgor rheoli yn gosod sylfaen briodol ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad. Mae cydweithio pwrpasol gyda'r athrawes gyswllt

a swyddog Mudiad Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad drwy'r cyngor a'r arweiniad adeiladol a ddarperir.

Mae partneriaeth dda gyda'r ysgol gynradd. Mae'r plant a'r ymarferwyr yn elwa o'r cyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau, megis mabolgampau a chyngherddau, a drefnwyd ar y cyd. Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol a gyda'r Cylch Ti a Fi lleol yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau adeiladol gyda'r gymuned. Mae aelodau o'r gymuned yn cyfrannu'n briodol at brofiadau'r plant ac yn cynnig cefnogaeth dda i'r gweithgareddau codi arian. Mae'r plant yn cymryd rhan lawn mewn digwyddiadau yn y pentref megis gwasanaethau yn y capel a'r carnifal.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae lefel staffio priodol i gyflwyno'r cwricwlwm ac i ddarparu ar gyfer lles a datblygiad y plant. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau sylfaenol ac mae defnydd pwrpasol ohonynt.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Mae effaith gadarnhaol yr hyfforddiant i'w weld yn ansawdd y profiadau megis gweithgareddau i ddatblygu medrau llythrennedd cynnar y plant.

Mae gan yr arweinydd a'r trysorydd ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn ôl anghenion y lleoliad. Mae defnydd llwyddiannus o weithgareddau codi arian i gynorthwyo'r lleoliad.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r gofal a chymorth i'r plant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy  Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |